

## Tasg 2

# Troi mewn cylchoedd

## Tasg Grŵp

Rydych chi'n gweithio i gwmni o benseiri. Chi sydd wedi cael y gwaith o gynllunio'r Stadiwm Olympaidd newydd sbon ar gyfer Cymru. Gall fod yn Stadiwm Olympaidd neu'n stadiwm pêl-droed, rygbi neu hoci.

- Edrychwch eto ar y Ffeil-o-ffaith gan feddwl beth oedd y problemau wrth godi bob stadiwm yn y gorffennol.
- Trafodwch y pethau pwysig sydd eu hangen ar gyfer y stadiwm newydd a gwnewch restr.
- Trafodwch beth hoffech chi weld yn y stadiwm newydd.
- Am faint o flynyddoedd fydd eich stadiwm yn cael ei ddefnyddio?
- Ar gyfer beth fydd eich stadiwm yn cael ei ddefnyddio?
- Gwnewch gynllun o siâp y stadiwm newydd, naill ai ar ddarn o bapur neu ar y cyfrifiadur.

Ar ôl gorffen, dangoswch eich cynllun i weddill y dosbarth, gan ofyn am eu barn nhw amdano.

	GEIRFA	
CYMRAG	DISGRIFIAD	SAESNEG
penseiri	Pobl sy'n gwneud cynllun o adeilad cyn ei godi	architects